❖ Siopa yw'r Nadolig

Siopa yw crefydd yr unfed ganrif ar hugain, meddai rhywun, a'r archfarchnadoedd yw eglwysi cadeiriol ein cyfnod ni. Enwadau'r grefydd newydd hon yw'r Marcsanspenseriaid, y Sêffwêwyr, y Tescoistiaid a'r Lidlwyr. Ac ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae eu temlau yn llawn prysurdeb wrth iddynt ddathlu gŵyl y gormodedd.

Bu amser, wrth gwrs, pan fyddai'r Ffransisiaid, brodyr y dyn bach tlawd o Assisi, yn addoli yn y rhan o Gaerfyrddin lle saif Tesco erbyn hyn. Gŵyl y Geni oedd canolbwynt eu blwyddyn eglwysig a'i neges am ddyfodiad Brenin y stabal a'r groes i'n byd fel un ohonom yn llywio pob agwedd o'u bywydau.

Roedd dychymyg a chân yn chwarae rhan hanfodol yng nghenhadaeth brodyr cynnar Sant Ffransis. Nhw oedd y rhai a ddaeth â'r syniad o gael 'preseb' (golygfa'r Geni) a drama Nadolig i Gymru. Un ohonynt oedd y Brawd Madog ap Gwallter, awdur y garol gyntaf yn y Gymraeg. Paradocs y Geni oedd yn cynhyrfu awen y Brawd Madog. Mae'n sôn am Iesu fel y 'Cawr mawr bychan, cryf, cadarn, gwan… cyfoethog, tlawd, a'n Tad, a'n Brawd.'

Cyfoeth a chadernid baban Bethlehem yw cyfoeth a chadernid cariad, ac nid yw cariad (hyd yn oed cariad anhraethol y Duw-ddyn) yn cyfrif rhyw lawer ym myd y grefydd newydd, gyda'i phwyslais ar drachwant a hunanoldeb. Ac eto, hyd yn oed yn ein hoes ni, mae'r 'cawr mawr bychan' yn medru cyffwrdd â'r bobl fwyaf annisgwyl a threiddio i'r mannau mwyaf annhebyg, gan lanw bywydau â llawenydd syfrdanol. A phan fo ei gariad Ef yn cario'r dydd, mae gŵyl y gormodedd yn troi'n ŵyl y Geni unwaith yn rhagor – yr ŵyl orau erioed. Nadolig Llawen!

Patrick Thomas